

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Ailgylchu Gwastraff Tai yn Sir y Fflint Household Recycling in Flintshire

Q11 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on household recycling in Flintshire? OAQ1188(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Flintshire has increased its municipal recycling and composting measured against National Assembly for Wales performance indicators from 16 per cent in 2003-04 to 19.7 per cent in 2004-05 through the introduction of kerbside collections of recyclates and improved household waste recycling centres.

Q11 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailgylchu gwastraff tai yn sir y Fflint? OAQ1188(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae sir y Fflint wedi cynyddu cyfran y gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio yn ôl dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o 16 y cant yn 2003-04 i 19.7 y cant yn 2004-05. Gwnaed hyn drwy gyflwyno system casgliadau ymyl y ffordd ar gyfer deunydd i'w ailgylchu a gwella canolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi.

Cyflawni Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru Achieving Social Justice in Wales

Q12 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on progress with Welsh Assembly Government policy to achieve social justice in Wales? OAQ1168(FM)

The First Minister: Achieving social justice means tapping into the latent capacity for innovation and enterprise that exists in all communities in Wales. The Assembly Government sponsors credit unions, for example, both because they bring financial services to disadvantaged areas, and because joining a local union provides such a powerful route to wider engagement and participation in community renewal.

Q12 John Griffiths: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed gyda pholisi Cynulliad Cymru o ran cyflawni cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru? OAQ1168(FM)

Y Prif Weinidog: Mae sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn golygu defnyddio'r gallu cynhenid i arloesi a mentro sy'n bodoli ym mhob cymuned yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn noddi undebau credyd, er enghraifft, oherwydd eu bod yn dod â gwasanaethau ariannol i ardaloedd difreintiedig ac oherwydd bod ymaelodi ag undeb leol yn ffordd o annog mwy o gyfraniad a chyfranogiad yn y gwaith o adnewyddu cymunedau.

Blaenoriaethau y 12 Mis nesaf o ran Addysg Cyfrwng Cymraeg Priorities for the next 12 Months with regard to Welsh-medium Education

Q13 Janet Ryder: What are the Welsh

Q13 Janet Ryder: Beth yw blaenoriaethau

Assembly Government's priorities for the next 12 months with regard to Welsh-medium education? OAQ1163(FM)

The First Minister: We will pursue the fulfilment of commitments made in 'Iaith Pawb', building on the substantial progress made already. Among other developments, more bilingual practitioners will be trained to meet current demands and local education authorities will be encouraged to be more proactive in assessing future demand for Welsh-medium school places.

Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y 12 mis nesaf o ran addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ1163(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymadau a wnaed yn 'Iaith Pawb' gan adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes. Ymysg datblygiadau eraill, caiff mwy o ymarferwyr dwyieithog eu hyfforddi i ymateb i'r galw presennol a chaiff awdurdodau addysg lleol eu hannog i fod yn fwy rhagweithiol wrth asesu'r galw am leoedd mewn ysgolion Cymraeg i'r dyfodol.

Penaethiaid Glanweithdra Newydd mewn Ysbytai New Hospital Cleanliness Tsars

Q14 Jonathan Morgan: Will the First Minister make a statement on how his Government intends to update the National Assembly on the progress made by the new hospital cleanliness tsars? OAQ1176(FM)

The First Minister: Following the Plenary debate on 11 January, the Government is bringing forward legislation enabling trusts to appoint infection management, cleaning and hygiene champions. The relevant directions are being drafted and the intention is to issue implementation guidance when this takes effect.

Q14 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y bwriada ei Lywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y cynnydd a wnaed gan y penaethiaid glanweithdra newydd mewn ysbytai? OAQ1176(FM)

Y Prif Weinidog: Yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Ionawr, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi ymddiriedolaethau i benodi hyrwyddwyr rheoli heintiau, glanhau a hylendid. Mae'r cyfarwyddiadau perthnasol yn cael eu drafftio a'r bwriad yw cyflwyno canllawiau ar gyfer rhoi'r cyfarwyddiadau ar waith pan ddaw hyn i rym.

Polisiau Amgylcheddol y Llywodraeth The Government's Environmental Policies

Q15 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on the Government's environmental policies? OAQ1164(FM)

The First Minister: We are delivering policies addressing specific environmental issues and implementing our obligations under national and international legislation. The environment strategy for Wales will be published in spring 2006. It will set the Assembly Government's long-term strategy for the Welsh environment and will address the key environmental challenges that we face.

Q15 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau amgylcheddol y Llywodraeth? OAQ1164(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cyflwyno polisiau sy'n rhoi sylw i faterion amgylcheddol penodol ac yn rhoi ein hymrwymadau o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol ar waith. Cyhoeddir y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru yng ngwanwyn 2006. Bydd yn pennu strategaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amgylchedd Cymru a bydd yn mynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol allweddol sydd yn ein hwynebu.